**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU CORFFORAETHOL**
**12 HYDREF 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 12 Hydref 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Jones (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Bernie Attridge, Alasdair Ibbotson, Gina Maddison, Allan Marshall, Vicky Perfect, Kevin Rush, Sam Swash, Linda Thomas ac Arnold Woolley

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd: Glyn Banks (dros Bill Crease) a Linda Thew (dros Jason Shallcross)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Helen Brown a David Coggins Cogan, yn bresennol fel arsylwyr

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor), y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Drafnidiaeth Ranbarthol), y Cynghorydd Paul Johnson (Aelod Cabinet Cyllid, Cynhwysiant a Chymunedau Cryf), y Cynghorydd Billy Mullin (Aelod Cabinet Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol), y Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Corfforaethol (Pobl a Datblygu Sefydliadol) a Rheolwyr Cyllid Strategol

Ar gyfer cofnod rhif 33
Uwch Reolwr (Diogelu a Chomisiynu)

Ar gyfer cofnod rhif 37
Rheolwr Gwasanaethau Isadeiledd TG

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a'r tîm

## 29. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 30. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Medi 2023, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Attridge a Rush.

Materion yn Codi

Cofnod rhif 25: Parheid i ddisgwyl am ymateb i'r cais am fanylion ynglŷn â dangosyddion perfformiad mewn perthynas â chartrefi newydd y Cyngor, tai fforddiadwy a chartrefi Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n cael eu hadeiladu.

Cofnod rhif 27: Nodwyd nad oedd dadansoddiad o'r gost am adnewyddu Ystafell Delyn wedi ei rannu gyda'r Pwyllgor eto.

Ar yr un cofnod, cyfeiriwyd at y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a oedd ar ôl a dyraniad refeniw ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl). Mynegodd y Cynghorydd Swash bryderon bod yr eglurhad a roddwyd yn flaenorol yn wahanol i'r ymateb diweddar a oedd yn dweud nad oedd y gyllideb £110,000 a oedd ar ôl yn y Polisi Cynllunio ers 2022/23 wedi ei neilltuo ar gyfer y CDLl yn 2023/24. Dywedodd ef a'r Cynghorydd Ibbotson fod y llinell gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2023/24 i fod ar gyfer y CDLl, a, chan nad oedd unrhyw waith pellach wedi ei gynllunio, dylid cyflwyno manylion y dyraniad sy'n weddill i'r Aelodau er mwyn iddynt ystyried ei bwrpas.

Dywedodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod cronfeydd wrth gefn y CDLl a glustnodwyd a oedd yn weddill ar ôl 2022/23 wedi eu trosglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn at raid, fel y cytunwyd gan yr Aelodau, tra bod yr ymateb a rannwyd wedyn gan swyddogion yn ymwneud â'r ymholiad am y gyllideb sylfaenol. Cytunodd i gynnwys nodyn manwl yn yr adroddiad monitro'r gyllideb nesaf er mwyn egluro'r ddwy elfen.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 31. OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol, a dywedodd y byddai'r cyflwyniad ar waith y Crwner yn cael ei gynnwys.

Cafodd yr argymhelliad ei gynnig gan y Cynghorwyr Ibbotson ac Attridge.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud.

## 32. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Wrth gyflwyno'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol, dywedodd Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y byddai diweddariad pellach ar Gyllideb 2024/25 yn cael ei gynnwys ar gyfer mis Tachwedd.

Dywedodd fod sesiwn hyfforddi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar Sgiliau Cwestiynu Craffu wedi cael ymateb da, ac fe'i cynhelid eto yn y dyfodol er mwyn rhoi cyfle i Aelodau eraill fod yn bresennol. Yn ôl cais gan y Cynghorydd Banks, byddai'n ymholi a ellid ymestyn yr hyfforddiant i Gynghorwyr Tref a Chymuned.

Ar sail hynny, cynigwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cynghorwyr Rush a Marshall.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Rhoi awdurdod i Reolwr y Gwasanaethau Democrataidd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

## 33. PECYNNAU GOFAL A ARIENNIR AR Y CYD – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr (Diogelu a Chomisiynu) adroddiad ar y wybodaeth ddiweddaraf am y ddyled hirdymor gyfredol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) mewn perthynas â darparu pecynnau Gofal Iechyd Parhaus y GIG yn Sir y Fflint. Rhannwyd adroddiad am y sefyllfa bresennol cyn y cyfarfod.

Ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw anfonebau heb eu talu dan flwydd oed, ac yr oedd hyn yn adlewyrchu'r prosesau gwell a roddwyd ar waith i ymdrin ag anfonebau mewn modd amserol. Ar 27 Medi, yr oedd anfonebau heb eu talu yn gwneud cyfanswm o £0.456 miliwn, yn cynnwys £0.183 miliwn o anfonebau un flwydd oed a throsodd. Yr oedd trefniadau cyflafareddu yn parhau er mwyn datrys y £0.273 miliwn o anfonebau hanesyddol a oedd ar ôl yn ymwneud â phum achos. Diolchodd i'r Pwyllgor am roi sylw dyledus i'r mater er mwyn lleihau'r ddyled sydd heb ei thalu.

Wrth ymateb i gwestiwn, dywedodd yr Uwch Swyddog fod cyfraniadau BIPBC wedi eu cynnwys mewn amcanestyniadau ariannol, a gwnaed gwiriad dilynol i gadarnhau bod y symiau wedi eu derbyn er mwyn sicrhau bod y gyllideb yn cael ei monitro'n gywir.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Banks a Thew.

**PENDERFYNWYD:**

Y byddai'r Pwyllgor yn nodi'r gwaith rheoli cyllideb rhagweithiol parhaus o ran yr anfonebau heb eu talu a godwyd gan y Cyngor i'w talu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

## 34. CYLLIDEB 2024/25 – CAM 2

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a Rheolwr Cyllid Corfforaethol y wybodaeth ddiweddaraf am y gofyniad cyllidebol ychwanegol ar gyfer 2024/25. Gofynnwyd i'r Pwyllgor adolygu'r pwysau ar y gyllideb a dewisiadau gostwng costau ym meysydd Llywodraethu, Gwasanaethau Corfforaethol ac Asedau, fel y nodwyd yn y cyflwyniad a oedd yn cwmpasu:

- Pwrpas a Chefndir
- Gofyniad Cyllidebol Ychwanegol ar gyfer y Cyngor yn 2024/25
- Risgiau Parhaus
- Y sefyllfa gyffredinol wedi'r datrysiadau cychwynnol
- Pwysau Costau a Gostyngiadau yn y Gyllideb
- Y Camau Nesaf ar gyfer Gosod Cyllideb 2024/25

Yr oedd yr isafswm gofyniad cyllidebol o £32.386 miliwn ychwanegol o adnoddau refeniw ar gyfer 2024/25 yn cymryd i ystyriaeth nifer o risgiau parhaus, gan gynnwys cyflogau'r sector cyhoeddus, y galw uchel am rai gwasanaethau a phwysau chwyddiannol a oedd yn cael eu monitro. Byddai cymryd datrysiadau cychwynnol i ystyriaeth yn gadael bwlch o £14.042 miliwn ar ôl yn y gyllideb, a oedd yn achosi her fawr i'r Cyngor os nad oedd unrhyw symudiad am fod yn y cynnydd dangosol o 3.1% yn setliad Llywodraeth Cymru (LlC). Yr oedd y cyflwyniad yn amlygu'r angen am raglen strategol o newid trawsffurfiol i sicrhau bod y Cyngor yn datblygu gostyngiadau mewn costau dros y tymor canolig i amddiffyn ei sefyllfa ariannol barhaus yn y dyfodol ac i baratoi ar gyfer heriau cyllidebol yn y dyfodol a oedd yn anochel.

Gofynnid i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu adolygu pwysau costau portffolios, dewisiadau effeithlonrwydd a risgiau cysylltiedig yn drylwyr, a nodi unrhyw feysydd ychwanegol o effeithlonrwydd costau. Byddai crynodeb o ganlyniadau o'r sesiynau hyn yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn yng nghyfarfod mis Tachwedd, a fyddai'n agored i bob Aelod. Yn dilyn derbyn y setliad dros dro ar 20 Rhagfyr, yng nghyfarfodydd Trosolwg a Chraffu ym mis Ionawr byddai raid ystyried y gostyngiadau cyllidebol pellach sydd eu hangen i lenwi'r bwlch sydd ar ôl yn y gyllideb er mwyn i'r Cyngor fodloni ei rwymedigaeth statudol o osod cyllideb gyfreithiol a chytbwys ym mis Chwefror 2024.

Llywodraethu

Mynegodd y Cynghorydd Bernie Attridge bryderon ynglŷn ag effaith y cynnig o gael gwared â swydd wag Archwilio Mewnol. Eglurodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) fod Rheolwr Archwilio Mewnol wedi cynnig y swydd wag hirdymor hon fel effeithlonrwydd yn dilyn newidiadau yn strwythur y tîm, ac y byddai'n cyflawni ei dyletswydd drwy roi barn archwilio flynyddol yn seiliedig ar y lefel o adnoddau sydd ar gael.

Parthed gwasanaethau a rennir, rhoddodd Rheolwr Gwasanaethau Isadeiledd TG enghreifftiau o gyfranogiad y Cyngor mewn fforwm cenedlaethol yn ogystal â gwaith arall ar y cyd ar ddiogelwch seibr. Dywedodd mai pwysau Technegydd Seibr oedd cefnogi swydd a oedd wedi ei hariannu ar gyfer 2023/24, a chynghorodd yn erbyn swydd wedi ei rhannu oherwydd y risg uchel yn ymwneud â bygythiadau seibr yn y DU.

Gofynnodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson a ymgynghorwyd â'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ynglŷn â chael gwared â swydd Archwilio Mewnol, a chwestiynodd yr atebolrwydd posibl o golli'r swydd.

Nid oedd y Prif Swyddog yn disgwyl unrhyw effaith ar achosion o dwyll a chamgymeriadau o ganlyniad i gael gwared â'r swydd, gan fod atal twyll yn gyfrifoldeb i'r gwasanaethau unigol. Wrth gael ei holi, dywedodd fod hyn yn cynrychioli risg gwyrdd yng ngwytnwch y gwasanaeth, oherwydd gallai leihau capasiti ar gyfer unrhyw waith heb ei gynllunio ac effeithio, o bosibl, ar waith wedi ei gynllunio. Gofynnodd y Cynghorydd Ibbotson i'r dewis hwn gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn ei ystyried.

Parthed ymholiadau eraill, rhoddwyd eglurhad nad oedd y tanwariant staffio yn Sir y Fflint yn Cysylltu o ganlyniad i broblemau recriwtio a chadw. Yr

oedd yr arbediad o ganlyniad i'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb gyfredol a ddyrannwyd a'r swm o arian sydd ei angen i ariannu'r strwythur staffio a gymeradwywyd. Eglurwyd hefyd bod pwysau costau TG naill ai ar gyfer uwchraddio technoleg bresennol neu ar gyfer darparu datrysiadau ychwanegol, ac nid oedd unrhyw gynlluniau i derfynu trwyddedau ar gyfer meddalwedd sydd â ffi drwydded gylchol.

Gofynnodd y Cynghorydd David Coggins Cogan a ellid alinio pwysau costau Technegydd TG Ysgolion gyda phwysau costau Technegydd Diogelwch Seibr er mwyn galluogi'r ddwy swydd i weithio ar y cyd i gynyddu gwytnwch ar ddiogelwch seibr.

Wrth egluro'r gwahaniaethau rhwng y ddwy swydd, cytunodd Rheolwr Gwasanaethau Isadeiledd TG i ystyried goblygiadau cost yr awgrymiad hwn. Cytunodd hefyd i ystyried awgrym y Cadeirydd i gyfuno'r ddwy swydd i un er mwyn creu £32,000 o arbediad; fodd bynnag, dywedodd ei bod yn annhebygol y gallai un unigolyn wneud lefel y gwaith.

Gwnaeth y Cadeirydd sylw ar yr angen i LlC ddarparu cymorth ariannol i bob Cyngor i sicrhau bod dull gweithredu cyson ar gyfer mynd i'r afael â diogelwch seibr. Wrth ymateb, eglurwyd bod LlC ar hyn o bryd yn ariannu'r ganolfan gweithrediadau diogelwch, a oedd yn adnodd canolog ar gyfer awdurdodau yng Nghymru.

Gwasanaethau Corfforaethol

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Linda Thew, eglurwyd bod cyfraniadau i Wasanaeth y Crwner ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn seiliedig ar y boblogaeth fesul sir.

Parthed Theatr Clwyd, holodd y Cynghorydd Attridge ynglŷn â goblygiadau penderfyniadau a wnaed yn flaenorol gan y Cyngor yn dilyn y gostyngiad mewn cyllid gan Gyngor y Celfyddydau. Dywedodd y Prif Weithredwr fod ymrwymiadau'r Cyngor wedi eu nodi'n glir yn y cytundeb cyfredol, a oedd yn parhau tan 2026.

Wedi cwestiwn arall, cadarnhaodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod y pwysau cost o £365,000 ar gyfer Modelau Cyflawni Amgen a Throsglwyddiadau Asedau Cymunedol yn adlewyrchu'r cynnydd chwyddiannol a ragwelir o'r cyfraniadau presennol i Hamdden Aura, Arlwyo a Glanhau NEWydd, Canolfan Hamdden Treffynnon, Cambrian Aquatics a Theatr Clwyd. Yn ôl cais y Cynghorydd Attridge, byddai dadansoddiad o'r swm hwnnw yn cael ei ddarparu i'r Aelodau. Dywedodd y Prif Weithredwr hefyd y byddai adroddiad diweddaru ar Drosglwyddiadau Asedau Cymunedol yn cael ei rannu hefyd gyda'r Pwyllgor, yn unol â chais blaenorol.

Rhoddwyd eglurhad i'r Cynghorydd Sam Swash ynglŷn â'r ddau gynllun sy'n cael eu cyflwyno dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer 2024/25. Parthed pwysau costau chwyddiannol ar gyfer Cydbwyllgorau Corfforedig, cwestiynodd y manteision i'r Cyngor, ac yna rhannodd y Cadeirydd ei farn bersonol na ddylid gwneud unrhyw gyfraniadau ychwanegol.

Dywedodd y Prif Weithredwr y disgwylid manylion allweddol ynglŷn â'r ddwy brif ffrwd waith mewn perthynas â chludiant a chynllunio rhanbarthol, a oedd yn cael eu datblygu yn y Cydbwyllgor Corfforedig.

Cododd y Cynghorydd Ibbotson gwestiynau am bwysau costau yn ymwneud â Modelau Cyflawni Amgen / Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol, a gwnaeth sylw am y cynnydd yn ystod y flwyddyn yn y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a ragwelir ar gyfer diwedd y flwyddyn. Cadarnhawyd na chynhwyswyd Cartrefi Gogledd Ddwyrain Cymru gan ei fod yn is-gwmni o dan berchnogaeth lwyr y Cyngor ac y byddai cyfraniadau gan y Cyngor i Fodelau Cyflawni Amgen / Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol yn cael eu hadolygu a'u herio fel rhan o'r broses o osod cyllideb.

Wrth ymateb i gwestiynau eraill, dywedodd y swyddogion mai'r pwysau cost ar gyfer y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd oedd cyfraniad tuag at y cam dylunio a datblygu, ac yr oedd y gwaith adeiladu'n debygol o ddigwydd yn 2025/26 a 2026/27. Fel y dywedwyd yn ystod y cyflwyniad, byddai'r pwysau cost ar gyfer elfen arian cyfatebol y cais aflwyddiannus i Gronfa Ffyniant Bro yn cael ei ddileu, a byddai'n cael ei adlewyrchu fel arbediad mewn diweddariadau cyllidebol yn y dyfodol. Rhoddwyd eglurhad hefyd ynglŷn â phrosiect Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) ym Mynydd Isa o fewn rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, ac yr oedd estyniad Ysgol Gynradd Gymunedol Penyffordd yn cael ei ariannu o'r Rhaglen Gyfalaf graidd.

Gwnaeth y Cynghorydd Ibbotson sylw am y diffyg cynnydd ar y Cydbwyllgor Corfforedig o ystyried lefel y cyllid a'r adnoddau a ddyrannwyd, a chwestiynodd a allai cyfraniadau alinio gyda'r fformiwla ariannu yn hytrach na'r boblogaeth. Yr oedd y Cadeirydd yn rhannu'r pryderon hyn, ac awgrymodd ef adroddiad diweddaru yn y dyfodol. Siaradodd y Prif Weithredwr am y gofynion a osodwyd gan y fframwaith cyfreithiol, ond byddai'n codi mater y model ariannu yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor Corfforedig.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Coggins Cogan ynglŷn â gwerth am arian ar y Cydbwyllgor Corfforedig, cyfeiriodd y Prif Weithredwr at ei sylwadau ar y ddwy brif ffrwd waith, a dywedodd fod trafodaethau wedi bod i liniaru cynnydd pellach i gyfraniadau.

Cwestiynodd y Cynghorydd Glyn Banks a allai'r Cyngor geisio cael ei eithrio rhag Ardoll Brentisiaethau, gan ei fod yn sefydliad nad yw'n gwneud elw. Parthed Theatr Clwyd, mynegodd bryderon ynglŷn â'r effaith ar y Cyngor yn deillio o'r diffyg yn y cyllid gan Gyngor y Celfyddydau. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r swyddogion roi ystyriaeth i hyn ac yna cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Wrth siarad am yr heriau o ran penderfynu ar gyllid ar gyfer gweithio ar y cyd, rhoddodd y Cynghorydd Ian Roberts sicrwydd o rôl y Cyngor yn y partneriaethau hynny a pharhaodd i wneud sylwadau. Siaradodd o blaid y consensws cynyddol y dylai Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ddod yn awdurdod praeseptio ar y Cyngor hwn (ynghyd â Heddlu Gogledd Cymru), gan awgrymu efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno ystyried anfon llythyr i LlC a'r Swyddfa Gartref parthed hyn.

Dywedodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) y gellid anfon y llythyr, gyda chytundeb y Pwyllgor, i Archwilio Cymru hefyd cyn ei adolygiad o drefniadau llywodraethu Awdurdodau Tân.

Asedau

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Ibbotson ynglŷn â dileu dewisiadau mewn perthynas ag ailstrwythuro Swyddfa Strategaeth, eglurodd y Prif Weithredwr fod y gwerth cymdeithasol a manteision cymunedol a geir wrth gadw'r swyddi hynny yn gwrthbwyso'r arbediad effeithlonrwydd.

Yn unol â chais, byddai mwy o fanylion am yr arbediad o £10,000 sy'n deillio o uno swyddogaethau ym maes Prisio ac Ystadau yn cael eu rhannu, ynghyd â dadansoddiad cyfrinachol o'r arbediad o £28,000 o gyllid trydydd sector, gan gynnwys y sefydliadau cysylltiedig.

Rhannodd y Cynghorydd Coggins Cogan bryderon ynglŷn â'r dewis i'r Cyngor ddileu tanysgrifiad Stonewall gan ei bod yn bwysig ei gadw, a swm bychan ydoedd. Fe'i cefnogwyd gan y Cynghorydd Roberts, a ddywedodd y dylid cadw hyn ar restr o ddewisiadau 'posibl'; a chytunodd y Cadeirydd.

Cafodd yr argymhellion, fel y'u diwygiwyd, eu cynnig a'u heilio gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Arnold Woolley.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor, wedi adolygu'r pwysau costau a'r dewisiadau i ostwng cyllidebau ym maes Llywodraethu, yn gwneud y sylwadau canol:

- Bod ymgynghori'n digwydd gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio parthed cael gwared â swydd wag Archwilio Mewnol;
- Bod swyddogion yn adolygu'r pwysau ar gyfer Technegydd TG Ysgolion a Thechnegydd Diogelwch Seibr i archwilio dichonoldeb (i) cynyddu un cyflog yn unol â'r llall er mwyn cynyddu gwytnwch drwy fod y ddwy swydd yn cefnogi ei gilydd; a (ii) chyfuno'r ddwy swydd er mwyn creu arbediad o £32,000.

(b) Bod y Pwyllgor, wedi adolygu'r pwysau costau a'r dewisiadau i ostwng cyllidebau yn y Gwasanaethau Corfforaethol, yn gwneud y sylwadau canol:

- Bod y Prif Weithredwr a Phrif Swyddog (Llywodraethu) yn ymgysylltu â'r Cadeirydd ac Arweinydd y Cyngor i anfon llythyr ar ran y Cyngor i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref ac Archwilio Cymru i wneud cais am rym praesept ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn Sir y Fflint.

(c) Bod y Pwyllgor, wedi adolygu'r pwysau costau a'r dewisiadau i ostwng cyllidebau ym maes Asedau, yn gwneud y sylwadau canol:

- Nid yw'r Pwyllgor yn cefnogi dileu aelodaeth Stonewall, ond mae'n derbyn bod hyn yn cael ei gynnwys ar y rhestr o ddewisiadau posibl os oes angen.

*Ar y pwynt hwn, cafwyd seibiant byr cyn i'r eitemau a oedd yn weddill gael eu hystyried.*

**35. <u>MONITRO CYLLIDEB REFENIW 2023/24 (MIS 5)</u>**

Cyflwynodd Rheolwr Cyllid Strategol sefyllfa mis 5 2023/24 Cronfa'r Cyngor a'r Cyfrif Refeniw Tai, cyn i'r Cabinet ei hystyried.

O ran Cronfa'r Cyngor, y sefyllfa a ragwelid ar ddiwedd y flwyddyn oedd diffyg gweithredol o £3.660 miliwn (ac eithrio effaith y dyfarniad cyflog a fyddai'n dod o'r cronfeydd wrth gefn), a oedd yn adlewyrchu gorwariant cyffredinol o £6.387 miliwn yn ystod y flwyddyn ar hyn o bryd. Nodwyd balans cronfeydd wrth gefn at raid o £3.027 miliwn ar gyfer diwedd y flwyddyn (ar ôl amcangyfrif effaith dyfarniadau cyflog). Er mwyn cynorthwyo gyda rheoli risgiau a lliniaru'r gorwariant cyffredinol a ragwelid, yr oedd moratoriwm yn cael ei gyflwyno drwy adolygu a herio gwariant nad yw'n hanfodol ynghyd â pharhad o'r broses o reoli swyddi gweigion. Crynhowyd y sefyllfa a ragwelid ar draws portffolios, gan gynnwys manylion amrywiadau arwyddocaol.

Yr oedd trosolwg o'r risgiau yn cynnwys amcangyfrif o effaith dyfarniadau cyflog, y sefyllfa ddiweddaraf parthed y tâl am dorri rheolau ailgylchu gwastraff, a'r galw uchel parhaus am wasanaethau digartrefedd a lleoliadau y tu allan i'r sir. Yn seiliedig ar y sefyllfa bresennol, amcangyfrifwyd y byddai 99% o arbedion effeithlonrwydd a gynlluniwyd wedi eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn. Yr oedd diweddariad ar gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn disgwyl y byddai'r ymrwymiadau sy'n weddill ar gyfer Cronfa wrth Gefn Caledi yn gadael balans rhwng £3 miliwn a £3.2 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Yr oedd adolygiad manwl o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd wedi nodi £0.648 miliwn i'w ryddhau i'r Gronfa wrth Gefn at Raid, gyda'r dadansoddiad cyffredinol yn dangos balans amcangyfrifedig o £14.758 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn.

Parthed y Cyfrif Refeniw Tai, rhagwelwyd y byddai gwariant refeniw net yn ystod y flwyddyn £0.006 miliwn yn uwch na'r gyllideb, a rhagwelwyd y byddai'r balans terfynol yn £3.191 miliwn. Yr oedd hyn yn cymryd i ystyriaeth gyfran y gost am gontract adnewyddu'r fflyd.

Wrth ymateb i ymholiadau gan y Cynghorydd Bernie Attridge, dywedodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol fod swyddogion ar hyn o bryd – yn ogystal ag adolygu gwariant nad yw'n hanfodol yn barhaus – yn gweithio ar egwyddorion y moratoriwm, a fyddai'n berthnasol ar draws portffolios i gynyddu cronfeydd wrth gefn a lliniaru'r effaith ariannol amcangyfrifedig ar gyllideb 2023/24. Rhoddwyd eglurhad hefyd am y gost ychwanegol ar gyfer ymestyn contract y fflyd, a adroddwyd i'r Cabinet ac a oedd yn cael ei gadw mewn cronfa ganolog gan y Gwasanaethau Stryd. Dywedodd y Cadeirydd y dylai pob portffolio gymryd cyfrifoldeb dros ei fflyd ei hun.

Mynegodd y Cynghorydd Attridge bryderon ynglŷn â'r symudiad sylweddol yn y gyllideb ar y cam hwn, a dywedodd fod angen dadansoddiad ar gyfer pob

blwyddyn er mwyn canfod yr achosion sylfaenol, yn arbennig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.  Cydnabuwyd y rhwystredigaethau gan Reolwr Cyllid Corfforaethol, a siaradodd am heriau a ragwelid o ganlyniad i alw anwadal mewn rhai gwasanaethau.

Parthed cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, ymholodd y Cynghorydd Alasdair Ibbotson ynglŷn â'r dyraniadau ar gyfer gweithwyr dan hyfforddiant Sir y Fflint a Ffermydd Solar.  Parthed Newid Sefydliadol / Modelau Cyflawni Amgen, gofynnodd a fyddai'r cynnydd a ragwelid ar ddiwedd y flwyddyn yn arwain at unrhyw ryddhad i gronfeydd wrth gefn cyffredinol, a gofynnodd am eglurder ynglŷn â'r gostyngiad disgwyliedig mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer Cynllun Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru.

Yn ogystal, ynglŷn â chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, cyfeiriodd y Cadeirydd at rai balansau nad oedd yn newid o flwyddyn i flwyddyn, a holodd pam eu bod yn dal i fod ar y rhestr pan nad oedd unrhyw ddisbyddiad.

Rhoddodd Rheolwr Cyllid Corfforaethol eglurhad ynglŷn â'r swm ar gyfer gweithwyr dan hyfforddiant Sir y Fflint, a byddai'n gofyn am ymateb llawnach gan Reolwr Corfforaethol Pobl a Datblygu Sefydliadol, yn ogystal â rhannu ymatebion i ymholiadau eraill.  Byddai ymateb i gais blaenorol ynglŷn â swm y refeniw ychwanegol a grëir o bremiymau Treth y Cyngor yn cael ei rannu ar ôl y cyfarfod.

Parthed ymholiad gan y Cynghorydd Glyn Banks yn ymwneud ag ymestyn contract y fflyd, cydnabu Rheolwr Cyllid Corfforaethol er bod y pwysau tymor hirach wedi ei gynnwys yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2024/25, nid oedd effaith rhan o'r flwyddyn ar gyfer 2023/24 wedi ei adlewyrchu, a byddai hynny'n cael ei ystyried ar gyfer dysgu yn y dyfodol.

Dywedodd y Cadeirydd fod diffyg cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru wedi achosi'r pwysau digartrefedd.  Gofynnodd am i'r Gronfa Galedi newid yn ôl i'w enw blaenorol, sef Cronfa Argyfwng Covid, ar gyfer dibenion adrodd.

Wrth ymateb i gwestiynau, rhoddodd swyddogion eglurhad ynglŷn â'r trosglwyddiad ariannol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis 4, a chadarnhau bod sylwadau'n parhau ynglŷn â chadw'r Grant Rheoli Gwastraff Cynaliadwy.  Rhoddwyd eglurhad hefyd am y tâl am dorri rheolau ailgylchu gwastraff a nodwyd fel risg, ac nid oedd wedi ei adlewyrchu yn y gyllideb ar y cam hwn.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Gina Maddison.

**PENDERFYNWYD:**

Ar ôl ystyried Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2023/24 (mis 5), y byddai'r Pwyllgor yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion penodol i'w codi gyda'r Cabinet.

## 36. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 – YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Cafodd yr argymhelliad i wahardd y wasg a'r cyhoedd ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Bernie Attridge ac Allan Marshall.

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod gan yr ystyrir bod yr eitem ganlynol wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraff 18 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

## 37. SEIBRGADERNID

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Llywodraethu) adroddiad yn ystyried goblygiadau adroddiad cenedlaethol Archwilio Cymru ar seibrgadernid a oedd wedi ei rannu gyda'r holl awdurdodau lleol i grynhoi'r hyn a ddysgwyd o ymosodiadau seibr diweddar a chanlyniadau'r gwaith dilynol ledled Cymru. Ystyriwyd yr adroddiad, nad oedd yn cynnwys unrhyw argymhellion penodol ar gyfer Sir y Fflint, gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac fe'i cyfeiriwyd at y Pwyllgor hwn er mwyn goruchwylio'r risgiau.

Amlygodd y Prif Swyddog a Rheolwr Gwasanaethau Isadeiledd TG y prif ystyriaethau ac ymatebodd i gwestiynau ar waith ar y cyd a pholisïau amrywiol yn cefnogi seibrgadernid.

Fel yr awgrymwyd gan y Cadeirydd, cytunodd y swyddogion i ymgysylltu ag Archwilio Cymru parthed dichonoldeb datblygu strategaeth seibrgadernid drosfwaol ar gyfer y Cyngor.

Cafodd yr argymhellion, a ddiwygiwyd i adlewyrchu'r drafodaeth, eu cynnig a'u heilio gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Allan Marshall.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r risg o ymosodiadau seibr yn erbyn y Cyngor, ac yn cefnogi'r camau a gymerwyd i sicrhau bod systemau cyfrifiadurol y Cyngor a'r data maent yn ei ddal yn aros yn ddiogel a chadarn.

(b) Bod e-bost yn cael ei anfon i'r holl Aelodau yn eu cynghori i gwblhau'r cwrs 'Cyber Ninja' erbyn diwedd y flwyddyn er mwyn ceisio lleihau'r risg o dramgwyddau seibr; a

(c) Bod swyddogion yn ystyried ffurfio Strategaeth Seibrgadernid.

## 38. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 1.45pm)

…………………………
**Cadeirydd**